

Negeseuon allweddol ymchwil i gam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol

Di McNeish and Sara Scott, DMSS Research

Ail argraffiad, Mawrth 2023

Negeseuon allweddol

Defnyddir y term ‘cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol’ i wahaniaethu rhyngddo â cham-drin o fewn y teulu neu leoliadau eraill. Mae'r term ‘sefydliad’ yn cynnwys nid yn unig amgylcheddau brics a mortar fel ysgolion ac ysbytai, ond hefyd sefydliadau eraill sy'n gweithio â phlant, pobl ifanc a theuluoedd mewn lleoliadau cymunedol, fel gwasanaethau gofal cymdeithasol, clybiau chwaraeon a grwpiau crefyddol. Gall cam-drin ddigwydd mewn unrhyw gyd-destun o'r fath lle mae oedolion mewn sefyllfaoedd o rym a dylanwad dros blant a phobl ifanc; canfu Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr 2019 fod un o bob 10 oedolyn wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod eu plentyndod, a bod y cam-drin wedi ei gyflawni gan unigolyn mewn sefyllfa o ymddiriedaeth neu awdurdod. Mi all cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol gael ei gyflawni gan bobl ifanc hefyd.

Gall cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol gael ei gyflawni gan un unigolyn ar un dioddefwr, er bod gan y rhai sy'n cam-drin mewn cyd-destun sefydliadol sawl dioddefwr yn aml, a gall sawl unigolyn gam-drin o fewn yr un sefydliad.

I gael dioddefwyr i gydymffurfio ac i sicrhau eu bod yn cadw'n dawel, gall y rhai sy'n cam-drin mewn cyd-destunau sefydliadol ddefnyddio bygythiadau a grym, ond byddant yn aml yn gwobrwyo, yn dangos ffafriaeth ac yn eu dieithrio oddi wrth ffrindiau a theulu, a/neu'n cymryd mantais ar weithgarwch sy'n cael ei normaleiddio a all fod yn gamdriniol. Gall technegau ‘paratoi i bwrpas rhyw’ tebyg gael ei defnyddio ar deuluoedd a chydweithwyr i sicrhau mynediad at ddioddefwyr i sicrhau na fyddant yn cael eu dal.

Mae llawer o achosion o gam-drin plant yn rhywiol wedi'u cysylltu â sefydliadau, a hynny heb i'r cam-drin gael ei ddatgelu am flynyddoedd lawer yn aml. Mae llawer o sefydliadau wedi gwneud pethau'n waeth drwy ei guddio a'i wadu yn hytrach na chredu ac amddiffyn dioddefwyr. Yn ychwanegol at effaith y cam-drin ei hun, mi all cael eu gadael i lawr gan sefydliad ddwysau ymdeimlad goroeswyr o fod wedi'u bradychu ac effeithio ar eu gallu i ymddiried mewn sefydliadau eraill.

Mae bechgyn a merched yn cael eu cam-drin yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol. Felly mae cymorth priodol i ddiwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr benywaidd a gwrywaidd yn hanfodol.

Mae ffactorau a all amlygu plant i beryglon mewn sefydliadau – neu sy'n helpu i'w cadw'n ddiogel rhag cael eu cam-drin – yn cynnwys ansawdd y berthynas â staff, cymarebau staffio, maint y sefydliadau, yr amgylchedd ffisegol, hyfforddiant i staff ac i ba raddau mae'r sefydliad yn agored i fewnbwn gan asiantaethau allanol. Yn ogystal â'r angen am brosesau recriwtio a dethol trylwyr, mae angen i sefydliadau feithrin diwylliannau agored lle mae diogelu'n cael ei weld fel rhywbeth sy'n fater i bawb, bod gan blant berthnasoedd amddiffynnol positif â sawl aelod o staff, a bod llai o gyfleoedd i gam-drin yn codi.

Nod ein papurau ‘negeseuon allweddol o'r ymchwil’ yw darparu gwybodaeth gryno a pherthnasol i ymarferwyr rheng flaen a chomisiynwyr. Maen nhw'n dod â'r ymchwil diweddaraf at ei gilydd i greu trosolwg hygyrch, gan gefnogi darpariaeth hyderus o'r ymatebion gorau posibl i gam-drin plant yn rhywiol.

Beth a olygir wrth gam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol?

Mae'r term 'gam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol' yn cael ei ddefnyddio i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n digwydd mewn lleoliad sefydliadol a cham-drin o fewn teuluoedd neu leoliadau eraill. Rydym yn defnyddio'r term 'sefydliad' i gynnwys ystod eang o gyd-destunau – nid yn unig brics a mortar fel ysgolion ac ysbytai, ond hefyd sefydliadau sy'n gweithio â phlant a theuluoedd mewn lleoliadau cymunedol fel gwasanaethau gofal cymdeithasol, clybiau chwaraeon neu grwpiau crefyddol. Er y gall cam-drin ddigwydd mewn sefydliadau lle mae oedolion mewn sefyllfaoedd o bŵer a dylanwad dros blant a phobl ifanc, mae'r rhan fwyaf o'r ymchwil i gam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol yn ymdrin â lleoliadau chwaraeon a chyfiawnder ieuencid, gofal preswyl, ysgolion a sefydliadau crefyddol.

Mae cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol wedi dod yn achos pryder mawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf o ganlyniad i achosion proffil uchel a sut mae sefydliadau wedi ymateb iddynt (e.e. Lampard a Marsden, 2015; Smith, 2016). Bu'n brif bwyslais mewn ymchwiliadau yn y DU ac Awstralia (Jay et al, 2022; Royal Commission into Institutional Responses to Child Sexual Abuse, 2017a).

Mae pryderon am 'gam-drin sefydliadol' yn dyddio'n ôl i'r 1970au (Gil, 1975) pan ddaeth achosion o gam-drin gan staff mewn lleoliadau gofal preswyl i'r amlwg (Wolfe et al, 2003). Yn ddiweddarach daeth dealltwriaeth ehangach i oleuo diffiniadau o gam-drin sefydliadol:

'Cam-drin plentyn (o dan 18 oed) yn rhywiol, corfforol neu emosiynol gan oedolyn sy'n gweithio ag ef neu hi. Gall y cyflawnwr fod mewn swydd gyflogedig neu wirfoddol; yn y sector cyhoeddus, gwirfoddol neu breifat; mewn lleoliad preswyl neu ddibreswyl; a gallant weithio naill ai'n uniongyrchol â phlant neu fod mewn rôl ategol' (Gallagher, 2000:797).

Mae'n cael ei gydnabod erbyn hyn bod cam-drin mewn cyd-destunau sefydliadol yn gallu cynnwys sawl cyflawnwr a sawl dioddefwr, a gall hefyd gael ei gyflawni gan rai eraill o dan 18 oed (Blakemore et al, 2017; Sullivan et al, 2011).

Mae sut y mae pobl yn meddwl ac yn siarad am gam-drin plant yn rhywiol wedi newid dros amser, ac mae hyn yn dylanwadu ar sut yr ydym yn deall ac yn ymateb i ddioddefwyr a goroeswyr. Er bod rhai o'r trafodaethau ar gam-drin plant yn rhywiol yn diystyru neu'n rhoi llai o bwyslais ar ymddygiad camdriniol, neu'n gwadu'r niwed sy'n cael ei wneud, mae eraill yn cydnabod y camddefnyddio grym a phwysigrwydd credu goroeswyr (Lovett et al, 2018).

Gellir gweld yr holl drafodaethau hyn mewn ymatebion i gam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol. Fel y dywed adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA), mae amrywiaeth o ymatebion wedi adweithio i ddatgeliadau o gam-drin plant yn rhywiol drwy 'symud cyflawnwyr ymlaen' a pheidio ag ymchwilio neu beidio rhoi gwybod am honiadau. Roeddent yn aml yn poeni mwy am warchod enw da unigolion neu'r sefydliad nag am amddiffyn plant. Er bod polisïau a gweithdrefnau diogelu'n bodoli, nid oeddent yn aml yn cael eu dilyn – ac os oedd adolygiadau mewnol neu allanol wedi'u cynnal, yn aml nid oedd argymhellion yn cael eu gweithredu (Jay et al, 2022).

Graddfa cam-drin mewn cyd-destunau sefydliadol

Er bod mwy o ymwybyddiaeth, nid oes llawer o wybodaeth fanwl am faint o gam-drin plant yn rhywiol sy'n digwydd mewn cyd-destunau sefydliadau a beth yw nifer y dioddefwyr. Hyd yma nid oes data a gesglir yn swyddogol sy'n gwahaniaethu rhwng adroddiadau am gam-drin yn digwydd o fewn y teulu a'r hyn sy'n digwydd mewn sefydliadau.

Yn Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr 2019, dangoswyd fod 9.7% o'r holl gam-drin rhywiol drwy gysylltiad a ddisgrifiwyd gan gyfranogwyr arolwg wedi'i gyflawni gan 'unigolyn mewn safle o ymddiriedaeth neu awdurdod' fel athro, meddyg, gofawr neu weithiwr ieuenticid (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020). Roedd 7.5% o'r holl oedolion a holwyd wedi profi rhyw fath o gam-drin rhywiol cyn eu bod yn 16 oed (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020) – mae hyn yn sicr yn amcangyfrif rhy isel, gan fod arolygon sy'n ymdrin â 'throseddau' fel arfer yn dangos cyfraddau adrodd is nag arolygon arbenigol ar drais a cham-drin neu iechyd (Karsna a Kelly, 2021).

Mae'r tebygrwydd y bydd dioddefwyr a goroeswyr yn siarad am eu profiadau yn isel ym mhob math o gam-drin plant yn rhywiol (Priebe a Svedin, 2008; Radford et al, 2011; Allnock a Miller, 2013; Allnock et al, 2019), ac mae'r diwylliant a'r ddynmeg grym a cham-drin mewn lleoliadau sefydliadau yn creu rhwystrau pellach (Leland Smith et al, 2008). Pan fydd goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol yn rhannu eu profiadau o gamdriniaeth, maent yn gwneud hynny gan amlaf flynyddoedd yn ddiweddarach (O'Leary a Barber, 2008; Parkinson et al, 2009).

Mae llawer o'r wybodaeth sydd ar gael am brofiadau o gam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol yn dibynnu ar dystiolaeth goroeswyr cam-drin nad yw'n ddiweddar; cymharol ychydig o ymchwil a fu i gam-drin cyfoes mewn lleoliadau o'r fath. Eithriad pwysig yw astudiaeth IICSA a oedd yn edrych ar 43 o ffeiliau achosion diweddar pobl a atgyfeiriwyd at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) gan y sefydliadau lle'r oeddent yn gweithio neu'n gwirfoddoli, o ganlyniad i bryderon am eu hymddygiad (Zammit et al, 2021). Canfu fod paratoi i bwrpas rhyw a cham-drin yn aml wedi digwydd ar-lein neu drwy gyfryngau cymdeithasol – a bod perthnasoedd cymdeithasol anffurfiol rhwng oedolion a phlant, a 'pherthnasoedd rhamantaidd tybiedig' rhwng oedolion a phobl ifanc yn eu gofal, yn aml yn cael eu normaleiddio o fewn y sefydliadau.

Roedd rhai achosion o gam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol yn cael eu cyflawni gan gyfoedion neu blant hŷn. Mae'r dystiolaeth a rannwyd ar y wefan *Everyone's Invited* (www.everyonesinvited.uk) wedi arwain at roi mwy o sylw i ymddygiad rhywiol niweidiol mewn ysgolion. Mae myfyrwyr wedi dweud bod aflonyddu rhywiol gan blant a phobl ifanc eraill wedi dod yn beth cyffredin, ac nad yw athrawon ac arweinyddion ysgolion yn sylweddoli beth yw maint y broblem – yn enwedig yn achos cam-drin ar-lein (Ofsted, 2021; Estyn, 2021). Canfu ymchwil arall fod staff ysgolion yn aml yn diystyru aflonyddu rhywiol fel 'hwyl diniwed' neu 'fechgyn yn chwarae o gwmpas' (Girlguiding, 2014; Coy et al, 2016). Mae'r pwnc hwn yn cael sylw yn *Negeseuon Allweddol o'r Ymchwil ar Blant a Phobl Ifanc Sy'n Arddangos Ymddygiad Rhywiol Niweidiol* y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Scott a McNeish, 2023).

Dioddefwyr camdriniaeth mewn cyd-destunau sefydliadol

Mae'r ymchwil sydd ar gael yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig am ryw'r dioddefwyr mewn gwahanol gyd-destunau. Er bod y rhan fwyaf o ddiodefwyr cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol yn fenywaidd, canfu Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2019 fod un o bob pump o oroeswr cam-drin plant yn rhywiol gwrywaidd wedi cael eu cam-drin mewn lleoliad addysg, gofal iechyd, gofal cymdeithasol neu gyfiawnder troseddol, o'i gymharu ag un o bob 10 o oroeswr benywaidd (a oedd yn fwy tebygol na goroeswr gwrywaidd o fod wedi cael eu cam-drin gartref) (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020).

Un rheswm am y canfyddiad hwn efallai yw bod troseddwr sefydliadol a'r 'tu allan i'r teulu' eraill yn fwy tebygol o gam-drin dioddefwyr gwrywaidd, neu ddiodefwyr gwrywaidd a benywaidd, na rhai sy'n cam-drin mewn cyd-destunau teuluol (Moulden et al, 2007; Sullivan et al, 2011). Yn ogystal, mae mwy o fechgyn na merched mewn sefydliadau gwarchodol a rhai mathau o sefydliadau preswyl (e.e. ysgolion preswyl), a mwy o rolau i fechgyn mewn eglwysi Cristnogol (e.e. mewn corau neu fel gweision allor) (Heath a Thompson, 2006; John Jay College of Criminal Justice, 2004; Parkinson et al, 2009; Sayer et al, 2018); mae diffyg ymchwil hyd yma ar ddiodefwyr cam-drin plant yn rhywiol sefydliadol o fewn crefyddau eraill.

Mae rhai astudiaethau'n awgrymu bod merched yn fwy tebygol na bechgyn o gael eu cam-drin yng nghyd-destun chwaraeon elitaidd neu gyfundrefnol (Leahy et al, 2002), mewn gofal preswyl (Timmerman a Schreuder, 2014) ac mewn ysgolion dibreswyl (Gallagher, 2000; Shakeshaft a Cohen, 1995). Gellir priodoli hyn yn rhannol o bosibl i'r ffaith bod bechgyn yn llai tebygol o ddweud wrth rywun eu bod wedi cael eu cam-drin (Artime et al, 2014; Shakeshaft, 2004; O'Leary a Barber, 2008), er bod hyn yn newid a bod ymwybyddiaeth gynyddol o gam-drin bechgyn mewn pèl droed, yn fwyaf penodol (Taylor, 2017).

Gall plant ifanc iawn gael eu cam-drin mewn lleoliadau sefydliadol gan gynnwys meithrinfeydd (Finkelhor et al, 1988; Kelley et al, 1993; Wonnacott, 2010; Wonnacott, 2013), ond mae diodefwyr hysbys cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol, ar gyfartaledd, yn hŷn na rhai sy'n cael eu cam-drin mewn lleoliadau eraill (Fischer a McDonald, 1998; Gallagher, 2000; Parkinson et al, 2009).

Mae plant anabl, sydd mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin ar y cyfan, hefyd yn fwy agored i gael eu cam-drin yn rhywiol mewn lleoliadau sefydliadol, yn rhannol am eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau preswyl a gofal personol (Miller a Brown, 2014).

Nid oes ymchwil benodol i ganfod a yw ffactorau fel ethnigrwydd a chyfeiriadedd rhywiol yn effeithio ar ba mor agored yw plant a phobl ifanc i gael eu cam-drin yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol. Fodd bynnag, mae adroddiadau IICSA yn dangos bod rhai grwpiau'n llai tebygol o ddatgelu eu bod yn cael eu cam-drin am eu bod yn teimlo'n wahanol, yn ofni stigma ac yn annhebygol o gael eu credu (e.e. Kaiser et al, 2021; Gibson et al, 2022).

Oedolion sy'n cyflawni camdriniaeth mewn cyd-destunau sefydliadol

Nid oes darlun clir sy'n dangos y gwahaniaethau rhwng y rhai sy'n cam-drin plant mewn lleoliadau sefydliadol a throsteddwyr cam-drin plant eraill. Canfu un astudiaeth gymharol fod rhai a gafwyd yn euog o gam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol yn llai tebygol o fod ag euogfarnau rhywiol blaenorol na throsteddwyr eraill o fewn y teulu, ond roeddent yn debyg fel arall o ran problemau iechyd meddwl, cam-drin sylweddau, eu profiad eu hunain o gam-drin rhywiol neu gorfforol neu eu diddordeb annaturiol neu ymlyniad emosiynol â phlant (Sullivan et al, 2011). Mae peth ymchwil yn awgrymu y gall cyflawnwyr mewn cyd-destunau sefydliadol fod yn hŷn ac wedi cael addysg well ar y cyfan, gydag IQ uwch a llai o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (Kaufman et al, 2016; Darling a Antonopoulos, 2013).

Gwahaniaethir rhwng trosteddwyr *cronig a chyson a throsteddwyr manteisgar a sefyllfaol*; yn achos y cam-drin olaf mae tebygrwydd isel o gael eu dal neu lle mae amgylcheddau'n cynnig cyfle i gam-drin (Wortley a Smallbone, 2006). Mae hyn yn helpu i'n hatgoffa o bwysigrwydd ystyried nodweddion sefyllfaol a all gynyddu'r risg y gallai cam-drin ddigwydd (Irenyi et al, 2006).

Mae adroddiadau goroeswyr i Truth Project IICSA yn cynnwys peth gwybodaeth am bobl sy'n cam-drin mewn cyd-destunau sefydliadol. O'r goroeswyr a oedd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol gan rywun a oedd yn gofalu amdanynt yn broffesiynol, roedd 93% wedi cael eu cam-drin gan ddynion yn unig, 4% gan fenywod yn unig a 3% gan ddynion a menywod (Truth Project, 2022).

Dynmeg cam-drin mewn cyd-destunau sefydliadol

Nid yw pob sefydliad yr un fath, felly mae angen deall cam-drin plant yn rhywiol yng nghyd-destun y ddynmeg rhwng y rhai sy'n cam-drin, eu dioddefwyr, a'r sefydliad penodol lle mae'n digwydd (Blakemore et al, 2017).

Mae gan sefydliadau hierarchaidd lle mae gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo ar delerau 'yr angen i wybod', fel sydd fwyaf cyffredin yn y lluoedd arfog neu mewn sefydliadau gwarchod, lefelau isel o adrodd, datgelu a chanfod cam-drin rhywiol (Palmer a Feldman, 2018). Disgrifiodd y 47 o'r cyfranogwyr yn Truth Project IICSA a adroddodd am gam-drin rhywiol hanesyddol mewn sefydliadau gwarchod amgylcheddau ymosodol a threisgar lle'r oedd gan y cyflawnwyr bŵer a rheolaeth sylweddol (Darling et al, 2020).

Yn hanesyddol, mae cyd-destunau sefydliadol – yn enwedig rhai sy'n cwmpasu pob agwedd ar fywyd plentyn – wedi bod yn amgylcheddau lle mae'r risg yn arbennig o uchel o ran cam-drin rhywiol. Mae ymchwiliadau yn Jersey a Gogledd Iwerddon wedi disgrifio lleoliadau gofal preswyl fel rhai wedi'u nodweddu gan gyfundrefnau 'llym', disgyblaeth ormodol, ofn a bygythiadau (Oldham et al, 2017; Hart et al, 2017).

Fodd bynnag, mi all diwylliannau sefydliadol gwahanol iawn hwyluso cam-drin. Un o brif ganfyddiadau ymchwil IICSA oedd bod diwylliannau lle mae pobl yn or-gyfarwydd, lle ceir perthnasoedd anffurfiol rhwng gweithwyr proffesiynol a phlant yn gallu cuddio cam-drin rhywiol (Zammit et al, 2021; Truth Project, 2022).

Gall cyd-destunau sefydliadol arwain at gyfleoedd i gam-drin am fod y rhyngweithio'n digwydd yn rheolaidd. Er enghraifft, mae rhai gweithgareddau mewn chwaraeon neu'r celfyddydau perfformio'n gofyn am gysylltiad corfforol rhwng oedolion a phlant i gywiro ystum y corff neu wella technegau (Royal Commission into Institutional Responses to Child Sexual Abuse, 2017b; Lang a Hartill, 2015). Mewn cyd-destunau gofal iechyd, mae cysylltiad rheolaidd â chyrrff plant, yn ogystal â'r parch a'r ymddiriedaeth a ddangosir tuag at weithwyr proffesiynol, yn creu cyfleoedd i gam-drin yn rhywiol heb ofni cael eu dal. Ni soniodd cyfranogwyr yn y Truth Project a oedd wedi cael eu cam-drin mewn cyd-destunau gofal iechyd lawer am 'baratoi i bwrpas rhyw', gan nad oes angen i weithwyr iechyd ddatblygu perthynas sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth neu ddibyniaeth er mwyn cam-drin (Zammit et al, 2020).

Mi all ffynonellau'r pŵer a weithredir gan rai sy'n cam-drin fod yn bersonol (yn gysylltiedig â'u hoedran, rhywedd, maint, personoliaeth, enw da neu arbenigedd) neu'n gysylltiedig â'u rôl neu swydd (Wurtele, 2012). Mae llawer o oroeswyr yn cyfeirio at 'charisma' y sawl sydd wedi eu cam-drin (Green, 2001; Mart, 2004; Smith a Freyd, 2013). Mae hyn yn wir yn achos chwaraeon, drama neu gerddoriaeth lle gall y berthynas rhwng athrawon/mentoriaid sy'n oedolion a phrentisiaid/myfyrwyr ifanc fod yn un ddwys lle maent yn treulio llawer o amser unigol gyda'i gilydd.

Mae dynameg cam-drin mewn rhai cyd-destunau chwaraeon wedi'u cymharu â'r rheolaeth drwy orfodaeth a geir mewn cam-drin domestig, gyda hyfforddwyr yn rheoli diet, gweithgarwch cymdeithasol ac ymddygiad rhywiol athletwyr ifanc elitaidd, a phobl ifanc wedyn yn ofni datgelu cam-drin rhywiol rhag ofn iddynt beryglu eu gyrfaoedd (Brackenridge, 2001; Brackenridge a Fasting, 2002; Brackenridge et al, 2008; Brackenridge et al, 2010; Everley, 2020). Gall diwylliannau o gam-drin tebyg ddatblygu hefyd mewn sefydliadau chwaraeon llawr gwlad (Truth Project, 2022).

Disgrifiodd cyfranogwyr yn y Truth Project a oedd wedi cael eu cam-drin mewn sefydliadau crefyddol sefydliadau o'r fath a'u cynrychiolwyr fel rhai sy'n cael lefel uwch o ddylanwad dros gymunedau, teuluoedd a bywydau dyddiol nag sy'n arferol yn achos sefydliadau eraill (Hurcombe et al, 2019). Mewn cyd-destunau ffydd, gall cyflawnwyr ddefnyddio credoau ac ysbrydolrwydd plentyn i bwysu arnynt, defnyddio athrawiaethau a symbolaeth i gyfiawnhau cam-drin (Farrell a Taylor, 2000; Walker et al, 2009; Wurtele, 2012; Isely et al, 2008; Spröber et al, 2014; Hurcombe et al, 2019).

Fel mewn cyd-destunau eraill, mae cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol yn aml yn cynnwys defnyddio tactegau i feithrin perthynas o ddibyniaeth – er enghraifft, trwy wobrau, ffafriaeth a dieithrio gan ffrindiau a theulu (Gallagher, 2000; Van Dam, 2001). Mae 'rhwyo' yn un ffordd o ddisgrifio proses a all gynnwys ystumio teimladau rhamantaidd y glasoed fel eu bod yn credu eu bod mewn perthynas rywiol gydsyniol (Brown et al, 2020), neu ymroddiad ac uchelgais person ifanc i lwyddo yn y maes o'u dewis (Brackenridge a Fasting, 2005). Gall teuluoedd a chydweithwyr gael eu trin yn yr un modd i sicrhau mynediad at ddiodefwrwr ac i beidio â chael eu dal (McAlinden, 2006).

Un nodwedd allweddol o ddynameg cam-drin mewn cyd-destunau sefydliadol yw ymddygiad y sefydliad ei hun. Mae datgeliadau gan oroeswyr yn aml wedi cael eu gwadu, eu cuddio ac mae diodefwrwr wedi cael eu beio gan sefydliadau sy'n ceisio amddiffyn eu hunain rhag cael eu herlyn neu golli eu henw da (Jay et al, 2022; Jay et al, 2021; Spröber et al, 2014). Mae ymatebion o'r fath yn atal chwythu'r chwiban ac yn annog 'diwylliant o dawelwch' (Smith a Freyd, 2013).

Effaith cam-drin mewn cyd-destunau sefydliadol

Er bod cysylltiad cryf rhwng cam-drin plant yn rhywiol mewn unrhyw leoliad â chanlyniadau andwyol yn ystod cwrs bywyd (Fisher et al, 2017; Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2017; Scott a McManus, 2016), ni fydd pob goroeswr yn profi'r un canlyniadau. Bydd ffactorau risg a chydnerthedd yn amrywio'n ôl amgylchiadau unigol, profiadau bywyd eraill, cyd-destun a natur y cam-drin, a'r croestoriad rhwng y rhain (Hecht a Hansen, 2001; Blakemore et al, 2017; Truth Project, 2022). Bydd hunan-barch a hunan-effeithiolrwydd, datblygiad strategaethau ymdopi positif a'r cymorth a gânt gan bobl eraill yn eu bywydau i gyd yn gwneud gwahaniaeth mawr (Allnock a Hynes, 2011). Mae'r canlyniadau mwyaf negyddol yn dueddol o fod i'r rhai lle mae cam-drin rhywiol wedi'i gyfuno â ffactorau andwyol neu gamdriniaeth arall (Finkelhor et al, 2007), neu mi all gael ei ddwysau gan ragor o gam-drin yn ystod cwrs bywyd (Scott et al, 2015).

Mae rhai goroeswyr cam-drin rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol wedi bod yn dystion i blant eraill yn cael eu cam-drin a/neu maent wedi cael eu cam-drin gan nifer o gyflawnwyr dros gyfnod hir (Truth Project, 2022). Mae profiadau o'r fath yn gallu cael canlyniadau gydol oes i iechyd meddwl a llesiant (Salter, 2013).

Gall effeithiau cam-drin mewn cyd-destunau sefydliadol gael eu dylanwadu gan y ffactorau canlynol:

- ▶ **Cyd-destunau cymdeithasol a hanesyddol.** Mae profiad goroeswyr o gam-drin, a'u dehongliad ohono a'u hymateb iddo, yn cael ei ffurfio yng nghyd-destun ble mae wedi digwydd – er enghraifft, y rhesymau pam yr oeddent yn y lleoliad sefydliadol a chymeriad y sefydliad (Blakemore et al, 2017).
- ▶ **Profiad blaenorol o gam-drin mewn lleoliadau eraill.** Gall rhai plant (e.e. rhai mewn gofal preswyl neu gaethiwed) fod wedi cael eu cam-drin eisoes mewn cyd-destunau eraill, fel o fewn y teulu (Sayer et al, 2018).

- ▶ **Ymdeimlad o 'frad sefydliadol'.** Gall dioddefwyr deimlo eu bod wedi'u bradychu nid yn unig gan yr unigolyn neu unigolion sydd wedi'u cam-drin ond hefyd gan y sefydliad ei hun. Mae brad sefydliadol yn cael ei gysylltu â lefelau uwch o orbryder, symptomau o drawma ac ymdeimlad o ddatgysylltiad (Smith a Freyd, 2013). Yn achos rhai sydd wedi cael eu cam-drin mewn cyd-destun crefyddol, mi all brad sefydliadol effeithio hefyd ar eu hunaniaeth a'u credoau.
- ▶ **Effaith ar chwilio am help.** Gall diffyg ymddiried mewn sefydliadau ac awdurdod wneud rhai goroeswyr yn amharod i chwilio am help gan sefydliadau eraill (Breckenridge et al, 2008; Kantor et al, 2017).
- ▶ **Cysyniadau o wrywdod.** Mae cysyniadau amlycaf o wrywdod mewn cyd-destunau sefydliadol penodol yn portreadu dynion fel bodau sy'n gryf 'yn naturiol', ac annibynnol, felly gall goroeswyr gwrywaidd deimlo cywilydd eithafol o fod yn ddiodeffwyr – gall hyn eu gwneud yn amharod i ddatgelu a gall effeithio ar eu hunanddelwedd, eu hiechyd meddwl a'u perthnasoedd (Fogler et al, 2008; Easton et al, 2014).
- ▶ **Effaith ar bobl sy'n agos i'r dioddefwr.** Gall aelodau o'r teulu, ffrindiau, partneriaid a phlant brofi 'effeithiau mechniol' yn syth ar ôl y cam-drin a blynyddoedd lawer yn ddiweddarach (Roberts et al, 2004; Morrison et al, 2007). Mi allant deimlo galar, euogrwydd, cywilydd a dicter am nad oeddent wedi gallu adnabod ac atal y cam-drin, neu am eu bod wedi annog cysylltiad y cyflawnwr yn y cyd-destun sefydliadol lle digwyddodd y cam-drin (Bennett et al, 2000).

Atal cam-drin mewn cyd-destunau sefydliadol

Wrth i ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol dyfu, felly hefyd y diddordeb mewn canfod ffyrdd effeithiol o'i atal. Mae llawer o'r pwyslais wedi bod ar geisio atal unigolion a all gam-drin rhag cael swyddi cyflogedig neu wirfoddol lle mae ganddynt fynediad at blant. Fodd bynnag, er bod gweithdrefnau recriwtio a dethol staff trylwyr yn werthfawr, dim ond rhan o'r ateb yw hynny: mae rhai sydd â'r potensial i gam-drin mewn lleoliadau sefydliadol yn anodd eu canfod, ac nid yw'r rhan fwyaf wedi troseddu o'r blaen (Erooga, 2009).

Er bod rhai pobl yn ymuno â sefydliadau gyda'r bwriad o gam-drin plant yn rhywiol, bydd eraill ond yn cam-drin mewn sefyllfaoedd lle nad oes llawer o wylidwriaeth na chanllawiau ymddygiadol (Wortley a Smallbone, 2006; Colton et al, 2010; Sullivan a Beech, 2004; Terry a Freilich, 2012). Mae'r risg yn arbennig o uchel mewn sefydliadau lle nad oes neb yn cadw golwg ar bŵer a dylanwad oedolion dros blant (ac oedolion eraill) a bod diwylliant o fod yn gyfrannog, a bod y rheiny'n gymharol 'gaeedig' i fonitro neu ddylanwad allanol. Fel y mae IICSA wedi datgan yn glir, mae cyfrifoldeb am gam-drin mewn cyd-destunau sefydliadol ar y rhai hynny sy'n gwybod am y cam-drin ond sy'n gwneud dim, a'r rhai sy'n mynd ati i'w guddio neu sy'n helpu'r cyflawnwyr i ddianc rhag cyfiawnder (Jay et al, 2022).

Mae carisma, statws a phoblogrwydd yn bethau y mae bri arnynt yn aml mewn sefydliadau, ond gellir eu defnyddio i 'swyno', ac i ffurfio delwedd ac enw sy'n golygu bod unigolion y tu hwnt i unrhyw amheuaeth (Erooga et al, 2020). Mae canfyddiad o unigolion neu sefydliadau fel rhai 'mawr eu bri' yn ffactor risg o ran cam-drin a dylid gochel rhagddynt (Smith a Freyd, 2013).

Mewn sefydliadau gwarchodol a sefydliadau preswyl eraill, mae ffactorau sefyllfaol a all helpu i gadw plant yn ddiogel gynnwys yr amgylchedd ffisegol e.e. meddwl yn ofalus sut mae unrhyw 'ofodau preifat' yn cael eu defnyddio neu gael mesurau diogelwch fel camerâu cylch cyfyng ar waith, a chymysgedd y boblogaeth, e.e. sicrhau cymysgedd briodol rhwng y rhywiau a hanes ymhlith plant mewn sefydliad. Nodwyd fod cymarebau staff-i-blant uchel, dilyniant mewn staffio, sefydliadau llai, hyfforddiant staff, plant yn cael amser a chyfleoedd i ddatgan pryderon neu broblemau â staff, staff yn gallu adnabod erledigaeth, bod yn agored i fewnbwn gan asiantaethau allanol, i gyd yn bwysig i atal cam-drin (Erooga et al, 2012; Sayer et al, 2018; Soares, Ablett et al, 2019; Soares, George et al, 2019).

I atal cam-drin plant yn rhywiol mewn ysgolion preswyl mae angen cyfuniad o ddulliau strwythurol, e.e. polisïau a gweithdrefnau diogelu cryf gan gynnwys fetio staff, a dulliau sefyllfaol, ochr yn ochr â hyfforddiant ac addysg i staff a phlant, a hybu perthnasoedd agored sy'n seiliedig ar ymddiried – ac mae hynny'n cynnwys y berthynas â rhieni hefyd (Roberts et al, 2020).

Mae cyfranogwyr yn Truth Project IICSA wedi disgrifio llawer o achosion o gam-drin rhywiol fel rhai a oedd yn digwydd i ffwrdd o'r amgylchedd sefydliadol – er enghraifft, yng nghartref y cyflawnwyr neu mewn mannau cyhoeddus (Truth Project, 2022). Mae'n hanfodol felly bod perthnasoedd yn cael eu monitro a bod ffiniau pendant yn cael eu gosod ar gyfer rhyngweithio rhwng staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr â phlant a phobl ifanc, ble bynnag maent yn digwydd.

Yn Awstralia, canfu'r Royal Commission into Institutional Responses to Child Sex Abuse (2016) nifer o nodweddion mewn sefydliadau sy'n ddiogel i blant. Roedd y rhain yn cynnwys ymgorffori diogelwch plant mewn arweinyddiaeth, llywodraethu a diwylliant sefydliadau; cynnwys plant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a chymryd eu barn o ddifrif; ac adolygu a gwella safonau diogelwch plant yn barhaus.

A phan fydd cam-drin yn digwydd, er gwaethaf pob ymdrech i'w atal, mae sut mae sefydliadau'n ymateb yn bwysig. Mae ymatebion buddiol yn 'ddynol', a seiliedig ar drawma, yn gwneud iawn, ac yn cynnwys ymddiheuriad ystyrlon, gweithredu yn erbyn cyflawnwyr, a chwrsela/cymorth i'r goroeswyr (Blunden et al, 2021).

Cyfeiriadau

Allnock, D. a Hynes, P. (2011) *Therapeutic Services for Sexually Abused Children and Young People: Scoping the Evidence Base. Summary Report*. Llundain: NSPCC.

Allnock, D. a Miller, P. (2013) *No One Noticed, No One Heard: A Study of Disclosures of Childhood Abuse*. Llundain: NSPCC.

Allnock, D., Miller, P. a Baker, H. (2019) *Negeseuon Allweddol o Waith Ymchwil ar Nodi Datgeliadau o Gam-drin Plant yn Rhywiol ac Ymateb Iddynt*. Barking: Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol.

Artime, T., McCallum, E. a Peterson, Z. (2014) Men's acknowledgement of their sexual victimization experiences. *Psychology of Men & Masculinity*, 15(3):313–323. <https://doi.org/10.1037/a0033376>

Bennett, S., Hughes, H. a Luke, D. (2000) Heterogeneity in patterns of child sexual abuse, family functioning, and long-term adjustment. *Journal of Interpersonal Violence*, 15(2):134–157. <https://doi.org/10.1177/088626000015002002>

Blakemore, T., Herbert, J., Arney, F. a Parkinson, S. (2017) *Impacts of Institutional Child Sexual Abuse on Victims/Survivors: A Rapid Review of Research Findings*. Sydney: Royal Commission into Institutional Responses to Child Sexual Abuse.

Blunden, H., Giuntoli, G., Newton, B. a Katz, I. (2021) Victims/survivors' perceptions of helpful institutional responses to incidents of institutional child sexual abuse. *Journal of Child Sexual Abuse*, 30(1):56–79. <https://doi.org/10.1080/10538712.2020.1801932>

Brackenridge, C. (2001) *Spoilsports: Understanding and Preventing Sexual Exploitation in Sport*. Llundain: Routledge.

Brackenridge, C., Bishopp, D., Moussalli, S. a Tapp, J. (2008) The characteristics of sexual abuse in sport: A multidimensional scaling analysis of events described in media reports. *International Journal of Sport and Exercise Psychology*, 6(4):385–406. <https://doi.org/10.1080/1612197X.2008.9671881>

Brackenridge, C. a Fasting, K. (2005) The grooming process in sport: Narratives of sexual harassment and abuse. *Auto/Biography: An International and Interdisciplinary Journal*, 13(1):33–52. <https://doi.org/10.1191/0967550705ab016oa>

Brackenridge, C. a Fasting, K. (2002) Sexual harassment and abuse in sport: The research context. *Journal of Sexual Aggression*, 8(2):3–15. <https://doi.org/10.1080/13552600208413336>

Brackenridge, C., Fasting, K., Kirby, S. a Leahy, T. (2010) *Protecting Children from Violence in Sport: A Review with a Focus on Industrialized Countries*. Florence: UNICEF Innocenti Research Centre.

Breckenridge, J., Cunningham, J. a Jennings, K. (2008) *Cry for Help: Client and Worker Experiences of Disclosure and Help Seeking Regarding Child Sexual Abuse*. Hindmarsh, De Awstralia: The Australian Institute of Social Relations.

Brown, S., Redmond, T., Rees, D., Ford, S. a King, S. (2020) *Child Sexual Abuse in the Context of Schools (Truth Project Thematic Report)*. Llundain: Ymchwil i Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Colton, M., Roberts, S. a Vanstone, M. (2010) Sexual abuse by men who work with children. *Journal of Child Sexual Abuse*, 19(3):345–364. <https://doi.org/10.1080/10538711003775824>

Coy, M., Kelly, L., Vera-Gray, F., Garner, M. a Kanyeredzi, A. (2016) From 'no means no' to 'an enthusiastic yes': Changing the discourse on sexual consent through sex and relationships education. Yn Sundaram, V. a Sauntson, H. (gol.) *Global Perspectives and Key Debates in Sex and Relationships Education: Addressing Issues of Gender, Sexuality, Plurality and Power*. Llundain: Palgrave Pivot. https://doi.org/10.1057/9781137500229_6

Darling, A. ac Antonopoulos, G. (2013) 'Notes on a scandal': Why do females engage in abuse of trust behaviours? *International Journal of Criminology and Sociology*, 2:525–537. <https://doi.org/10.6000/1929-4409.2013.02.47>

Darling, A., Mooney, B., King, S., Hurcombe, R., Soares, C., Ablett, G. a Brähler, V. (2020) *Child Sexual Abuse in Custodial Institutions (Truth Project Thematic Report)*. Llundain: Ymchwil i Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Easton, S., Saltzman, L. a Willis, D. (2014) "Would you tell under circumstances like that?": Barriers to disclosure of child sexual abuse for men. *Psychology of Men & Masculinity*, 15(4):460–469. <https://doi.org/10.1037/a0034223>

- Erooga, M. (2009) *Towards Safer Organisations: Adults Who Pose a Risk to Children in the Workplace and Implications for Recruitment and Selection*. Llundain: NSPCC
- Erooga, M., Allnock, D. a Telford, P. (2012) *Towards Safer Organisations II: Using the Perspectives of Convicted Sex Offenders to Inform Organisational Safeguarding of Children*. Llundain: NSPCC
- Erooga, M., Kaufman, K. a Zatzkin, J. (2020) Powerful perpetrators, hidden in plain sight: An international analysis of organisational child sexual abuse cases, *Journal of Sexual Aggression*, 26(1):62–90. <https://doi.org/10.1080/13552600.2019.1645897>
- Estyn (2021) “Dydyn Ni Ddim yn Dweud wrth Ein Hathrawon”: Profiadau o Aflonyddu Rhywiol rhwng Cyfoedion ymhlith Disgyblion Ysgolion Uwchradd yng Nghymru. Caerdydd: Estyn.
- Everley, S. (2020) The Child Protection in Sport Unit – Supporting national governing bodies in hearing the voices of children: An evaluation of current practice. *Child Abuse Review*, 29(2):114–129. <https://doi.org/10.1002/car.2615>
- Farrell, D. a Taylor, M. (2000) Silenced by God – An examination of unique characteristics within sexual abuse by clergy. *Counselling Psychology Review*, 15(1):22–31.
- Finkelhor, D., Ormrod, R. a Turner, H. (2007) Poly-victimization: A neglected component in child victimization. *Child Abuse & Neglect*, 31(1):7–26. <https://doi.org/10.1016/j.chiabu.2006.06.008>
- Finkelhor, D., Williams, L. a Burns, N. (1988) *Nursery Crimes: Sexual Abuse in Day Care*. Newbury Park, CA: Sage Publications.
- Fischer, D. a McDonald, W. (1998) Characteristics of intrafamilial and extrafamilial child sexual abuse. *Child Abuse & Neglect*, 22(9):915–929. [https://doi.org/10.1016/S0145-2134\(98\)00063-5](https://doi.org/10.1016/S0145-2134(98)00063-5)
- Fisher, C., Goldsmith, A., Hurcombe, R. a Soares, C. (2017) *The Impacts of Child Sexual Abuse: A Rapid Evidence Assessment. Summary Report*. Llundain: Ymchwilad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.
- Fogler, J., Shipherd, J., Clarke, S., Jensen, J. a Rowe, E. (2008) The impact of clergy-perpetrated sexual abuse: The role of gender, development, and posttraumatic stress. *Journal of Child Sexual Abuse*, 17(3–4):329–358. <https://doi.org/10.1080/10538710802329940>
- Gallagher, B. (2000) The extent and nature of known cases of institutional child sexual abuse. *The British Journal of Social Work*, 30(6):795–817. <https://doi.org/10.1093/bjsw/30.6.795>
- Gibson, E., Knight, R., Durham, A. a Choudhury, I. (2022) *Engagement with Lesbian, Gay, Bisexual, Transgender and Queer/questioning+ Victims and Survivors*. Llundain: Ymchwilad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.
- Gil, D. (1975) Unraveling child abuse. *American Journal of Orthopsychiatry*, 45(3):346–356. <https://doi.org/10.1111/j.1939-0025.1975.tb02545.x>
- Girlguiding (2014) *Girls’ Attitudes Survey 2014*. Llundain: Girlguiding.
- Green, L. (2001) Analysing the sexual abuse of children by workers in residential care homes: Characteristics, dynamics and contributory factors. *Journal of Sexual Aggression*, 7(2):5–24. <https://doi.org/10.1080/13552600108416164>
- Hart, A., Doherty, G. a Lane, D. (2017) *Report of the Historical Institutional Abuse Inquiry*. Belfast: Inquiry into Historical Institutional Abuse in Northern Ireland/The Executive Office.
- Heath, J. a Thompson, A. (2006) Extrafamilial child abuse: An analysis of briefs of evidence to investigate relationships between perpetrator and victim characteristics. Yn Katsikitis, M. (gol.) *Proceedings of the 2006 Joint Conference of the Australian Psychological Society and the New Zealand Psychological Society. Psychology Bridging the Tasman: Science, Culture and Practice*. Melbourne: APS Press.
- Hecht, D. a Hansen, D. (2001) The environment of child maltreatment: Contextual factors and the development of psychopathology. *Aggression and Violent Behavior*, 6(5):433–457. [https://doi.org/10.1016/S1359-1789\(00\)00015-X](https://doi.org/10.1016/S1359-1789(00)00015-X)
- Hurcombe, R., Darling, A., Mooney, B., Ablett, G., Soares, C., King, S. a Brähler, V. (2019) *Child Sexual Abuse in the Context of Religious Institutions (Truth Project Thematic Report)*. Llundain: Ymchwilad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

- Irenyi, M., Bromfield, L., Beyer, L. a Higgins, D. (2006) *Child Maltreatment in Organisations: Risk Factors and Strategies for Prevention (Child Abuse Prevention Issues, No. 25)*. Melbourne: Australian Institute of Family Studies.
- Isely, P., Isely, P., Freiburger, J. a McMackin, R. (2008) In their own voices: A qualitative study of men abused as children by Catholic clergy. *Journal of Child Sexual Abuse*, 17(3–4):201–215. <https://doi.org/10.1080/10538710802329668>
- Jay, A., Evans, M., Frank, I. a Sharpling, D. (2022) *The Report of the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.
- Jay, A., Evans, M., Frank, I. a Sharpling, D. (2021) *Child Protection in Religious Organisations and Settings: Investigation Report*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.
- John Jay College of Criminal Justice (2004) *The Nature and Scope of Sexual Abuse of Minors by Catholic Priests and Deacons in the United States, 1950–2002*. Washington, DC: United States Conference of Catholic Bishops.
- Kaiser, S., Choudhury, I., Knight, R. a Gibson, E. (2021) *Engagement with Support Services for Ethnic Minority Communities*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.
- Kantor, V., Knefel, M. a Lueger-Schuster, B. (2017) Investigating institutional abuse survivors' help-seeking attitudes with the Inventory of Attitudes towards Seeking Mental Health Services. *European Journal of Psychotraumatology*, 8(1): erthygl 1377528. <https://doi.org/10.1080/20008198.2017.1377528>
- Karsna, K. a Kelly, L. (2021) *The Scale and Nature of Child Sexual Abuse: Review of Evidence*. Barkingside: Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol.
- Kaufman, K., Erooga, M., Stewart, K., Zatzkin, J., McConnell, E., Tews, H. a Higgins, D. (2016) *Risk Profiles for Institutional Child Sexual Abuse: A Literature Review*. Sydney, NSW: Royal Commission into Institutional Responses to Child Sexual Abuse.
- Kelley, S., Brant, R. a Waterman, J. (1993) Sexual abuse of children in day care centers. *Child Abuse & Neglect*, 17(1):71–89. [https://doi.org/10.1016/0145-2134\(93\)90010-3](https://doi.org/10.1016/0145-2134(93)90010-3)
- Lampard, K. a Marsden, E. (2015) *Themes and Lessons Learnt from NHS Investigations into Matters Relating to Jimmy Savile: Independent Report for the Secretary of State for Health*. Llundain: Yr Adran Iechyd.
- Lang, M. a Hartill, M. (2015) Safeguarding and child protection in sport in England. Yn Lang, M. a Hartill, M. (gol.) *Safeguarding, Child Protection and Abuse in Sport: International Perspectives in Research, Policy and Practice*. Llundain: Routledge. <https://doi.org/10.4324/9780203628515>
- Leahy, T., Pretty, G. a Tenenbaum, G. (2002) Prevalence of sexual abuse in organised competitive sport in Australia. *Journal of Sexual Aggression*, 8(2):16–36. <https://doi.org/10.1080/13552600208413337>
- Leland Smith, M., Rengifo, A. a Vollman, B. (2008) Trajectories of abuse and disclosure: Child sexual abuse by Catholic priests. *Criminal Justice and Behavior*, 35(5):570–582. <https://doi.org/10.1177/0093854808314340>
- Lovett, J., Coy, M. a Kelly, L. (2018) *Deflection, Denial and Disbelief: Social and Political Discourses about Child Sexual Abuse and Their Influence on Institutional Responses. A Rapid Evidence Assessment*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.
- McAlinden, A. (2006) 'Setting 'em up': Personal, familial and institutional grooming in the sexual abuse of children. *Social & Legal Studies*, 15(3):339–362. <https://doi.org/10.1177/0964663906066613>
- Mart, E. (2004) Victims of abuse by priests: Some preliminary observations. *Pastoral Psychology*, 52(6):465–472. <https://doi.org/10.1023/B:PASP.0000031524.23793.bf>
- Miller, D. a Brown, J. (2014) *'We Have the Right to Be Safe': Protecting Disabled Children from Abuse*. Llundain: NSPCC.
- Morrison, Z., Quadara, A. a Boyd, C. (2007) *"Ripple Effects" of Sexual Assault (ACSSA Issues, No. 7)*. Melbourne: Australian Centre for the Study of Sexual Assault.
- Moulden, H., Firestone, P. a Wexler, A. (2007) Child care providers who commit sexual offences: A description of offender, offence, and victim characteristics. *International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology*, 51(4):384–406. <https://doi.org/10.1177/0306624X06298465>

Ofsted (2021) *Review of Sexual Abuse in Schools and Colleges*. Llundain: Ofsted.

Oldham, F., Leslie, A. a Cameron, A. (2017) *The Report of the Independent Jersey Care Inquiry 2017*. St Helier: Independent Jersey Care Inquiry.

O'Leary, P. a Barber, J. (2008) Gender differences in silencing following childhood sexual abuse. *Journal of Child Sexual Abuse*, 17(2):133–143. <https://doi.org/10.1080/10538710801916416>

Palmer, D. a Feldman, V. (2018) *Comprehending the Incomprehensible. Organization Theory and Child Sexual Abuse in Organizations*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt. <https://doi.org/10.1017/9781108539524>

Parkinson, P., Oates, K. a Jayakody, A. (2009) *Study of Reported Child Sexual Abuse in the Anglican Church*. Sydney: General Synod, Anglican Church of Australia.

Priebe, G. a Svedin, C. (2008) Child sexual abuse is largely hidden from the adult society: An epidemiological study of adolescents' disclosures. *Child Abuse & Neglect*, 32(12):1095–1108. <https://doi.org/10.1016/j.chiabu.2008.04.001>

Radford, L., Corral, S., Bradley, C., Fisher, H., Bassett, C., Howat, N. a Collishaw, S. (2011) *Child Abuse and Neglect in the UK Today*. Llundain: NSPCC.

Roberts, E., Sharrock, S., Yeo, A., Graham, J., Turley, C. a Kelley, N. (2020) *Safeguarding Children from Sexual Abuse in Residential Schools*. Llundain: Ymchwil i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Roberts, R., O'Connor, T., Dunn, J., Golding, J. ac ALSPAC Study Team (2004) The effects of child sexual abuse in later family life; Mental health, parenting and adjustment of offspring. *Child Abuse & Neglect*, 28(5):525–545. <https://doi.org/10.1016/j.chiabu.2003.07.006>

Royal Commission into Institutional Responses to Child Sexual Abuse (2017a) *Final Report: Volume 1, Our Inquiry*. Sydney, NSW: Royal Commission into Institutional Responses to Child Sexual Abuse.

Royal Commission into Institutional Responses to Child Sexual Abuse (2017b) *Final Report: Volume 14, Sport, Recreation, Arts, Culture, Community and Hobby Groups*. Sydney, NSW: Royal Commission into Institutional Responses to Child Sexual Abuse.

Royal Commission into Institutional Responses to Child Sexual Abuse (2016) *Creating Child Safe Institutions*. Sydney, NSW: Royal Commission into Institutional Responses to Child Sexual Abuse.

Salter, M. (2013) *Organised Sexual Abuse*. Llundain: Routledge

Sayer, E., Rodger, H., Soares, C. a Hurcombe, R. (2018) *Child Sexual Abuse in Custodial Institutions: A Rapid Evidence Assessment*. Llundain: Ymchwil i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Scott, S. a McManus, S. (2016) *Hidden Hurt: Violence, Abuse and Disadvantage in the Lives of Women*. Llundain: Agenda.

Scott, S., McManus, S., McNaughton Nicholls, C., Kelly, L. a Lovett, J. (2015) *Violence, Abuse and Mental Health in England: Population Patterns (Responding Effectively to Violence and Abuse, Briefing 1)*. Llundain: Llundain: Yr Adran Iechyd.

Scott, S a McNeish, D. (2023) *Negeseuon Allweddol o'r Ymchwil ar Blant a Phobl Ifanc Sy'n Arddangos Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (Ail Argraffiad)*. Barking: Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol.

Shakeshaft, C. (2004) *Educator Sexual Misconduct: A Synthesis of Existing Literature*. Washington, DC: US Department of Education.

Shakeshaft, C. a Cohen, A. (1995) Sexual abuse of students by school personnel. *Phi Delta Kappan*, 76(7):513–520.

Smith, C. a Freyd, J. (2013) Dangerous safe havens: Institutional betrayal exacerbates sexual trauma. *Journal of Traumatic Stress*, 26(1):119–124. <https://doi.org/10.1002/jts.21778>

Smith, J. (2016) *An Independent Review into the BBC's Culture and Practices during the Jimmy Savile and Stuart Hall Years*. Llundain: BBC Trust.

Soares, C., Ablett, G., Mooney, B. a King, S. (2019) *Child Sexual Abuse in the Context of Children's Homes and Residential Care (Truth Project Thematic Report)*. Llundain: Ymchwil i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Soares, C., George, R., Pope, L. a Brähler, V. (2019) *Safe Inside? Child Sexual Abuse in the Youth Secure Estate*. Llundain: Ymchwil i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

- Spröber, N., Schneider, T., Rassenhofer, M., Seitz, A., Liebhardt, H., König, L. a Fegert, J. (2014) Child sexual abuse in religiously affiliated and secular institutions: A retrospective descriptive analysis of data provided by victims in a government-sponsored reappraisal program in Germany. *BMC Public Health*, 14:282. <https://doi.org/10.1186/1471-2458-14-282>
- Sullivan, J. a Beech, A. (2004) A comparative study of demographic data relating to intra- and extra-familial child sexual abusers and professional perpetrators. *Journal of Sexual Aggression*, 10(1):39–50. <https://doi.org/10.1080/13552600410001667788>
- Sullivan, J., Beech, A., Craig, L. a Gannon, T. (2011) Comparing intra-familial and extra-familial child sexual abusers with professionals who have sexually abused children with whom they work. *International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology*, 55(1):56–74. <https://doi.org/10.1177/0306624X09359194>
- Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020) *Child Sexual Abuse – Appendix Tables (Year ending March 2019 edition of this dataset)*. [Ar-lein.] Cyrchwyd 4 Ionawr 2023. Ar gael yn: www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/childsexualabuseappendixtables
- Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017) *Impact of Child Abuse on Later Life: Findings from the Crime Survey for England and Wales, Year Ending March 2016*. [Ar-lein.] Cyrchwyd 26 Gorffennaf 2018. Ar gael yn: www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/adhocs/007527impactofchildabuseonlaterlife/crimesurveyforenglandandwalesyearendingmarch2016
- Taylor, D. (2017) One year after football's child abuse scandal broke, stories are yet to be told. *The Observer*, 11 Tachwedd. Ar gael yn: www.theguardian.com/football/2017/nov/11/andy-woodward-one-year-on
- Terry, K. a Freilich, J. (2012) Understanding child sexual abuse by Catholic priests from a situational perspective. *Journal of Child Sexual Abuse*, 21(4):437–455. <https://doi.org/10.1080/10538712.2012.693579>
- Timmerman, M. a Schreuder, P. (2014) Sexual abuse of children and youth in residential care: An international review. *Aggression and Violent Behavior*, 19(6):715–720. <https://doi.org/10.1016/j.avb.2014.09.001>
- Truth Project (2022) *I Will Be Heard: Victims and Survivors' Experiences of Child Sexual Abuse in Institutional Contexts in England and Wales*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.
- Van Dam, C. (2001) *Identifying Child Molesters: Preventing Child Sexual Abuse by Recognizing the Patterns of the Offenders*. New York: Haworth Maltreatment and Trauma Press.
- Walker, D., Henri, W., O'Neill, T. a Brown, L. (2009) Changes in personal religion/spirituality during and after childhood abuse: A review and synthesis. *Psychological Trauma: Theory, Research, Practice, and Policy*, 1(2):130–145. <https://doi.org/10.1037/a0016211>
- Wolfe, D., Jaffe, P., Jette, J. a Poisson, S. (2003) The impact of child abuse in community institutions and organizations: Advancing professional and scientific understanding. *Clinical Psychology: Science & Practice*, 10(2):179–191. <https://doi.org/10.1093/clipsy.bpg021>
- Wonnacott, J. (2013) *Serious Case Review under Chapter VIII 'Working Together to Safeguard Children' in Respect of the Serious Injury of Case No.2010-11/3*. Birmingham: Bwrdd Diogelu Plant Birmingham.
- Wonnacott, J. (2010) *Serious Case Review Overview Report Executive Summary in Respect of Nursery Z*. Plymouth: Bwrdd Diogelu Plant Plymouth.
- Wortley, R. a Smallbone, S. (2006) Applying situational principles to sexual offences against children. Yn Wortley, R. a Smallbone, S. (gol.) *Situational Prevention of Child Sexual Abuse (Crime Prevention Studies, Vol. 19)*. Monsey, NY: Criminal Justice Press.
- Wurtele, S. (2012) Preventing the sexual exploitation of minors in youth-serving organisations. *Children and Youth Services Review*, 34(12):2442–2453. <https://doi.org/10.1016/j.childyouth.2012.09.009>
- Zammit, J., Brown, S., Mooney, J. a King, S. (2020) *Child Sexual Abuse in Healthcare Contexts (Truth Project Thematic Report)*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.
- Zammit, J., Senker, S., Bows, H., Rodger, H., Redmond, T. a Brähler, V. (2021). *Child Sexual Abuse in Contemporary Institutional Contexts: An Analysis of Disclosure and Barring Service Discretionary Case Files*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Papurau eraill yn y gyfres ‘Negeseuon allweddol o’r ymchwil’

Camfanteisio’n rhywiol ar blant:

- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer staff sy’n gweithio mewn lleoliadau iechyd
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal iechyd
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer yr heddlu
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau’r heddlu yn strategol
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau plant yn strategol
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau ysgolion
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer gweithio’n amlasiantaethol
- ▶ Bylchau yn y sylfaen wybodaeth

Plant a phobl ifanc sy’n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol

Cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Nodi datgeliadau o gam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddynt

Plant sy’n derbyn gofal a cham-drin plant yn rhywiol

Cam-drin plant yn rhywiol a gyflawnir gan oedolion

Ewch i www.csacentre.org.uk/research-publications/key-messages

